# DANGOSFWRDD LLAETH
## Mai – Awst 2019

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### % o'r holl weithgarwch yn y cyfnod hwn sy'n berthnasol i'r sector Llaeth

**42%** GWEITHGAREDD LLAETH

**98%** O FFERMYDD LLAETH CYMRU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO

### Gweithdai Hyfforddiant Iechyd a Lles Anifeiliaid

CYNHALIWYD **42** GWEITHDY gyda **45** O FYNYCHWYR

Roedd themâu'r grwpiau yn cynnwys:

- **4** Gweithdy Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)
- **1** Gweithdy Deall Clefyd Johne

### Prosiectau Safleoedd Arddangos

### Ffocws ar ymwybyddiaeth o driniaeth wrthfiotig

**Data Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMU): 2018-19**

Ymwelwyd â Goldsland flwyddyn ar ôl y prosiect i weld os oedd eu defnydd o driniaethau gwrthficrobaidd wedi newid yn dilyn cyngor technegol Dr James Breen. Yn gyffredinol roedd y defnydd wedi lleihau yn sylweddol yn y flwyddyn yn dilyn y prosiect.

- Roedd y defnydd o driniaethau gwrthficrobaidd (AMU) ar gyfer 2018-19 yn 8mg/PCU, 1.5 dos dyddiol a 0.5 cwrs y fuwch
  - Defnydd o Tylan trwy chwistrell bellach yn 1.5mg
  - Triniaeth mastitis clinigol bellach yn 0.8 dos dyddiol
  - Therapi buchod sych gwrthfiotig bellach yn 0.1 cwrs
- Mae cyfradd achosion mastitis clinigol wedi gostwng i 21 achos i bob 100 buwch y flwyddyn o'r wybodaeth a gasglwyd dros 12 mis hyd at ddiwedd Mehefin 2019
- 53 achos o fastitis wedi eu hadrodd yn y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â 91 achos y flwyddyn flaenorol
- Mae pob achos yn cael ei ddarganfod a'i drin; nid yw'r fferm wedi stopio trin achosion ysgafn
- Mae cyfradd yr achosion NEWYDD mewn gwartheg sydd wedi lloea ers dros 30 diwrnod wedi lleihau o 2.6 i 1.2 buwch ym mhob 12 buwch 'mewn perygl'

Mae hyn yn enghraifft dda o leihau achosion newydd yn y fuches, ac felly yn lleihau achosion yn ail-ymddangos. Cafwyd 38 yn llai o achosion rhwng 2017-18 a 2018-19, oedd yn golygu hefyd arbediad o £15,200 ar achosion mastits yn unig.

| | Cyfradd mastitis clinigol (100 buwch y flwyddyn) | Achosion o fastitis | AMU Mg/PCU | Dos dyddiol fesul buwch | Cwrs dyddiol fesul buwch | AMU o bwysigrwydd critigol Mg/PCU |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 49 | 91 | 17 | 2.9 | 1 | 0.37 |
| 2018-19 | 21 | 53 | 8 | 1.5 | 0.5 | 0.00 |

Cymhariaeth o ddata mastitis a defnydd gwrthfiotig o 2017-18 a 2018-19

Cafodd y fideo yma ei chynhyrchu i dynnu sylw ar y gwaith da a wnaethpwyd yn Goldsland Farm.

Cliciwch yma neu ar y sgrin teledu i wylio.




### Ffocws ar Fagu Heffrod Llaeth

Gwerthuso'r economeg a'r ymarferoldeb o fagu heffrod llaeth ar fferm ddefaid ucheldir.



Ychydig iawn sy'n cael ei ddeall ynglŷn â rheolaeth heffrod llaeth ar laswellt o fewn system pori cylchdro wedi ei stocio'n drwm. Mae'r prif egwyddorion, yn nhermau defnydd a rheolaeth, yn seiliedig ar ymarferion pori buches laeth aeddfed. Bydd y prosiect yn Llys Dinmael Isaf Farm yn monitro cadw golwg ar raddfeydd twf heffrod yn erbyn gorchudd porfa cyn ac ar ôl pori gyda'r nod i ddeall yn well sut mae heffrod Holstein Friesian yn gallu pori mewn system pori cylchdro celloedd gyda'r nod o sicrhau'r perfformiad gorau ar system fwydo cost isel.

Bydd 20 heffer Holstein Friesian yn cael eu magu gan gynhyrchwr ar fferm ddefaid ucheldir (dim cynhyrchwr llaeth) o bedair wythnos oed hyd nes y byddant yn barod i loea, gyda'r nod o bori cymaint o laswellt â phosib i fonitro a rheoli bwyd, deunydd gorwedd, llafur a chostau lloches. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy system pori cylchdro celloedd fydd yn gweithio ar y cyd â system gyfredol pori cylchdro defaid.

### Ffocws ar Frechlyn Mycoplasma Bovis

Ers 2015 mae Wern Farm, safle ffocws Cyswllt ffermio ger Bancyfelin, wedi dioddef lefel uchel o farwolaethau ymysg y lloi. Roedd y lefel uchel o farwolaethau ar ddechrau'r prosiect yn cael effaith negyddol ar y busnes trwy ormod o farwolaeth ymysg lloeau a chynnydd mewn costau triniaethau. Cafodd tri llo gyda niwmonia eu profi'n wreiddiol am M.Bovis, gyda phob un yn dychwelyd gyda diagnosis cadarnhaol.

O ganlyniad i'r polisi brechu, dywedodd y busnes mai 20 llo gafodd eu hachub oedd werth oddeutu £4,000 o incwm yn ychwanegol y flwyddyn. Nid yn unig cafodd lloeau eu hachub, roedd iechyd cyffredinol y lloeau yn wedi gwella, oedd yn golygu lloeau cryfach oedd a chyfraddau twf uwch. Roedd buddion pellach yn cynnwys gwell "lles pobl" gan fod llai o anifeiliaid sâl angen eu trin. Cynllunia'r busnes i barhau i frechu cyn y gaeaf i weld os oes buddion pellach i'w weld. Bydd canlyniadau hyn yn sail i benderfyniad os bydd brechu yn dod yn "arfer safonol" unwaith bydd y gyfres hon o'r brechlyn wedi ei ddefnyddio.

### Ffocws ar gynyddu cynnyrch o laswellt wedi ei bori

Mae Erw Fawr, yn ddaliad o 192ha ger Caergybi, yn Safle Arddangos Cyswllt Ffermio newydd. Bydd eu prosiect yn canolbwyntio ar wella faint o laswellt sydd ar gael er mwyn gwella'r defnydd o laswellt a chynyddu'r llaeth o laswellt wedi ei bori. Byddant hefyd yn defnyddio technoleg lloeren i wella ansawdd silwair aml-doriad.

Cafodd y glaswellt ei fesur ar y 3 Medi: y gorchudd glaswellt cyfartalog oedd 2401kgDM/HA a'r galw am laswellt oedd 2020kgDM/dydd. Gweler map o badogau'r fferm isod.



## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd:

- NODWEDDION MAETHOL LLAETH ANIFEILIAID HEBLAW BUCHOD A'R CYFLEOEDD IDDO YN Y DEYRNAS UNEDIG
- PA MOR ISEL ALLWCH CHI FYND? PWYSIGRWYDD PROTEIN I'R FUWCH ODRO
- CWTOGI'CH COLLEDION: MANTEISIO I'R EITHAF AR FUDDION CYNLLUN RHEOLI MAETHOLION

## Grwpiau Trafod

CYNHALIWYD **30** CYFARFOD GRWPIAU TRAFOD LLAETH gyda **239** O FYNYCHWYR

**Nifer y grwpiau Trafod Llaeth: 32**

### Astudiaeth Achos

Cafodd Grŵp Trafod Llaeth De Sir Drefaldwyn ymweliad gan Rob Drysdale ym mis Mai lle rhannodd ei wybodaeth a'i brofiad mewn magu lloeau gyda'r grŵp. Nod y cyfarfod oedd trafod cyfnodau gwahanol o fewn bywyd y llo, y dangosyddion perfformiad allweddol a'r cyfleusterau dan do mewn menter laeth. Rhoddodd Rob fanylion penodol ar bwysigrwydd adnabod eich anifeiliaid a deall y gwahanol gyfnodau o fywyd llo a'i system imiwnedd ym mhob cyfnod. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â beth sy'n achosi straen i anifail fel diddyfnu, troi allan, newid mewn porthiant neu ddeunydd pori. Pwysleisiodd Rob bwysigrwydd cynllunio strategol a pharatoi'n dda ymlaen llaw am unrhyw newid er mwyn lleihau unrhyw straen ar yr anifail.

Rhannwyd manylion gyda'r grŵp ynghylch pwysigrwydd bwydo colostrwm da o fewn y tri phryd cyntaf ym mywyd y llo. Gall hyn gynorthwyo ffermwyr i gael lloeau o'r ansawdd gorau ac i leihau effaith afiechydon fel niwmonia.

Dangosyddion perfformiad allweddol eraill gafodd eu hadnabod a'u trafod oedd:

- % Sganio
- % Magu
- Pwysau yn 8 wythnos
- Marwolaethau
- cynnydd pwysau byw dyddiol (DLWG)
- Milfeddygon a Meddyginiaeth
- KG o bîff a gynhyrchwyd
- Ansawdd y lloeau pan mae nhw'n cyrraedd
- Bwyd oedd yn cael ei fwyta
- Nifer y dyddiau i fod yn ôl yn gyflo
- Diwrnodau ar y fferm

Dilynwyd y drafodaeth gyda thaith fferm lle cafodd aelodau weld enghreifftiau o ymarfer dda mewn magu lloeau.

## Cymorthfeydd

**Cynhaliwyd 41 Cymhorthfa**

One 2 One

| | |
|---|---|
| 14 CYMHORTHFA OLYNIAETH | 5 CYMHORTHFA GYNLLUNIO |
| 4 CYMHORTHFA ADOLYGIAD BUSNES DIGIDOL | 18 CYMHORTHFA FEINCNODI |

Mae'r cymorthfeydd un i un y byddwn yn eu darparu ar gael i bob sector, yn cynnwys y sector Llaeth, sy'n golygu y gellir rhannu cyngor arbenigwyr ymhellach. Yn ystod y cyfnod hwn, mynychodd **16** o unigolion o fusnesau llaeth gymhorthfa, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

## Agrisgôp

CYNHALIWYD **42** CYFARFOD Â THEMA LLAETH gyda **233** O FYNYCHWYR

Roedd themâu'r grwpiau yn cynnwys:

- Ffermwyr ar gyfer addysg
- Adnoddau ac ymgyrchoedd y diwydiant
- Ymweliad fferm i arweinwyr byd mewn cynhyrchu buchod gwych ar gyfer cynhyrchu llaeth

## Rhaglen Fentora

**75** O FFERMWYR LLAETH yn cael eu mentora ar hyn o bryd

Cliciwch yma i weld y Cyfeiriadur Mentoriaid llawn.

## Cyfnewidfa Rheolaeth

**Cyfnewidfa Rheolaeth Alec Cowan, Mai 2019**

**Pwnc:** Buchesi Llaeth Robotig

**Gwlad:** Yr Iseldiroedd



Yn ystod mis Mai, teithiodd Alec i'r Iseldiroedd i gwblhau ei gyfnewidfa. Ei nod oedd darganfod mwy am odro robotig gwartheg godro, o ogwydd ymarferol, gyda ffocws penodol ar leihau'r defnydd o wrthfiotigau. Mi benderfynodd ymweld â'r Iseldiroedd gan fod 25% o'u ffermydd llaeth yn defnyddio robotiaid i odro, o'i gymharu â 2-3% yn y DU.

Aeth Alec i ymweld â phedair fferm gan gynnwys cynhyrchwr caws. Yn ogystal â chael gwell dealltwriaeth o odro robotig, cafodd gyfle i wybod mwy am iechyd buchesi.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Alec.

## Mentro

**4** DARPARWR LLAETH NEWYDD | **4** CEISIWR LLAETH NEWYDD | **1** PARTNERIAETH POSIB WEDI EI SEFYDLU YN Y CHWARTER DIWETHAF

**4 PARTNERIAETH LLAETH** yn cael eu cefnogi trwy'r Gwasanaeth Cynghori ar hyn o bryd

Cafodd 9 Menter Llaeth ar y Cyd newydd eu sefydlu trwy'r rhaglen Mentro yn ystod y cyfnod hwn

Cyfleoedd presennol sydd ar gael:

| Nifer y cyfleoedd a gynigir: | Cyfanswm arwynebedd y tir a gynigir: |
|---|---|
| 2 UNED LLAETH | 232 HECTAR (UNEDAU LLAETH YN UNIG) |

## Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd **56** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb ar gyfer unigolion o fewn y sector Llaeth.

| GWELLA BUSNES | HYFFORDDIANT TECHNEGOL | DEFNYDDIO PEIRIANNAU AC OFFER |
|---|---|---|
| 10 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | 32 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | 14 UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT |

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

- YSGOTHI YMHLITH LLOI
- CLOFFNI GWARTHEG
- MASTITIS MEWN GWARTHEG
- RHEOLI DOLUR RHYDD FEIRYSOL

Cliciwch yma i ymweld â'r wefan.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government